




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Uwch Gymrodoriaeth Canllawiau i Ymgeiswyr

Addaswyd o ganllawiau AU Ymlaen



Cynnwys

1	CYFLWYNIAD	3
2	FFRAMWAITH SAFONAU PROFFESIYNOL 2023 (PSF 2023)	5
3	DATBLYGU EICH CAIS.....	7
3.1	CAM 1	8
3.2	CAM 2	9
3.3	CAM 3	10
4	EICH ADRODDIAD AM ARFER PROFFESIYNOL	10
4.1	MAE EICH ADRODDIAD AM ARFER PROFFESIYNOL YN ADRODDIAD PERSONOL	11
4.2	DATGANIAD CYD-DESTUN	12
4.3	Y NARATIF ADFYFYRIOL AC ASTUDIAETHAU ACHOS	15
4.4	ADFYFYRIO AR EICH ARFER.....	15
4.5	RHESTR GYFEIRIADAU.....	16
5	DANGOS TYSTIOLAETH AR GYFER DISGRIFYDD 3.....	18
5.1	DANGOS TYSTIOLAETH AR GYFER D3.2: COFNOD PARHAUS O ARWAIN NEU DDYLANWADU AR ARFER Y RHAI SY’N ADDYSGU A/ NEU’N CEFNOGI DYSGU O ANSAWDD UCHEL	18
5.2	DANGOS TYSTIOLAETH AR GYFER D3.2: ARFER SY’N EFFEITHIOL, YN GYNHWYSOL AC SY’N INTEGREDDIO’R HOLL DDIMENSIYNAU	20
5.3	DANGOS TYSTIOLAETH AR GYFER D3.3: ARFER SY’N YMESTYN YN SYLWEDDOL Y TU HWNT I ADDYSGU UNIONGYRCHOL A/NEU GYMORTH UNIONGYRCHOL AR GYFER DYSGU	21
6	YSGRIFENNU EICH CAIS	24
6.1	CYNLLUNIO	24
6.2	YSGRIFENNU EICH NARATIF ADFYFYRIOL.....	25
6.3	YSGRIFENNU EICH ASTUDIAETHAU ACHOS	26
7	DATGANIADAU CEFNOGI.....	30
7.1	CANLLAWIAU I GANOLWYR	30
8	CYFLWYNO EICH CAIS AM UWCH GYMRODORIAETH.....	31
8.1	PROSES CYFLWYNO CAIS:.....	31
9	SUT BYDD EICH CAIS YN CAEL EI ADOLYGU?.....	31
9.1	SUT MAE’R ADOLYGWYR YN FFURFIO EU BARN?	32
9.2	FAINT O AMSER BYDD Y BROSES ADOLYGU’N EI GYMRYD?	32
9.3	Y BROSES ADOLYGU A CHANLYNIADAU POSIBL.....	32
10	BETH OS OES GENNYF GWESTIYNAU ERAILL?.....	33

1 Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unigolion sydd eisiau gwneud cais drwy Gynllun DPP PCYDDS am Uwch Gymrodoriaeth gan ddefnyddio'r Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF 2023).

Mae'r ddogfen hon yn esbonio gofynion Uwch Gymrodoriaeth (Disgrifydd 3) ac yn rhoi arweiniad i'ch cefnogi i ddatblygu eich cais.

Uwch Gymrodoriaeth (Disgrifydd 3) yw'r categori priodol o Gymrodoriaeth i gydnabod yn broffesiynol unigolion o amrywiaeth eang o wahanol gyd-destunau y mae eu **dealltwriaeth gynhwysfawr a'u harfer effeithiol yn darparu sail i arwain neu ddylanwadu ar y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel.**

Trwy wneud cais i fod yn Uwch Gymrawd, cewch gyfle i:

- Ddangos eich ymrwymiad i addysgu, dysgu, a phrofiad y myfyriwr, drwy ymgysylltu â phroses ymarferol sy'n annog ymchwil, adfyfrio a datblygiad proffesiynol
- Ennill cydnabyddiaeth broffesiynol am eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch, a gydnabyddir yn gynyddol gan sefydliadau rhyngwladol
- Meincnodi eich arferion yn erbyn safonau proffesiynol a disgwyliadau'r sector
- Adnabod a dathlu eich cryfderau a'ch cyflawniadau drwy fyfrio ar eich profiad

Mae Uwch Gymrodyr yn arwain ac yn dylanwadu ar arfer dysgu ac addysgu mewn nifer o leoliadau gwahanol. Gan weithio gyda a thrwy 'bobl eraill' (e.e. cydweithwyr, cymheiriaid, menteion, ac ati) maent yn gweithredu i gefnogi, arwain ac ysgogi newid neu arwain/dylanwadu ar wella arfer mewn ystod eang o gyd-destunau byd-eang. Mae eu cyfraniad yn effeithiol, ac o fudd i fyfyrwyr a'u profiadau dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Nid yw Uwch Gymrodoriaeth **yn dibynnu ar y rôl** ac mae nifer o gyd-destunau gwahanol lle gallech fod yn arwain a/neu'n dylanwadu ar arfer pobl eraill. Bydd angen i chi archwilio a oes gennych dystiolaeth ddigonol i fodloni gofynion Disgrifydd 3.

Rydym yn argymhell eich bod, cyn dechrau eich cais, yn defnyddio Offeryn Categori Cymrodoriaeth ar-lein AU Ymlaen, **Fellowship Category Tool (FCT)** sy'n rhad ac am ddim. Dylai ateb y cwestiynau ar-lein am eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch:

- eich helpu i wirio mai'r Uwch Gymrodoriaeth yw'r dewis gorau o ran eich arfer ar hyn o bryd
- eich ysgogi i feddwl am wahanol agweddau o'ch arfer wrth i chi gynllunio eich cais

1.1 Addysg Uwch a chymhwysra ar gyfer Uwch Gymrodoriaeth

Mae PSF 2023 yn nodi'r **safonau proffesiynol ar gyfer addysg uwch (AU)**. Mae'n **rhaid** i'r holl brofiad a thystiolaeth a gynhwysir mewn cais am Uwch Gymrodoriaeth ymwneud ag

arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu sy'n berthnasol i ddarpariaeth **addysg uwch**, megis:

- + lefel 7 neu uwch **Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF)** ar y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS) neu **gyfatebol**
- + cylch cyntaf neu uwch **Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop** (QF-EHEA)
- + lefel 5 neu uwch **Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF)** neu **gyfatebol**
- + lefel 5 neu uwch **Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd (NZQF)** neu **gyfatebol**
- + fframweithiau addysg uwch cyfatebol eraill;
- + yn ogystal gellir ystyried gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr o fewn cyd-destun Addysg Uwch fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch uchod, ar yr amod bod y dysgwr(wyr) wedi'u cofrestru ar Gymhwyster Addysg Uwch
- + gellir hefyd ystyried cyflwyno peth **datblygiad proffesiynol parhaus nad yw wedi'i achredu** i staff academiaidd a staff cymorth dysgu fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch.

Mae PSF 2023 yn cydnabod yr amrywiaeth eang o gyd-destunau lleol a byd-eang y mae addysg uwch yn gweithredu ynddynt, a'r arferion a'r rolau amrywiol sy'n cyfrannu at ddysgu o ansawdd uchel.

Wrth ddiffinio beth yw dysgu ac addysgu mewn Addysg Uwch mewn cyd-destunau rhyngwladol gwahanol, er mwyn pennu cymhwysra ar gyfer Cymrodoriaeth, mae AU Ymlaen yn defnyddio UK ENIC (Canolfan Wybodaeth Genedlaethol y DU) i gael gwybodaeth am fframweithiau addysg a chymwysterau rhyngwladol. Bydd rhaglenni'n cael eu diffinio'n rhai AU, at ddibenion penderfynu a yw staff sy'n addysgu a chefnogi dysgu ar y rhaglen yn gymwys am Gymrodoriaeth, os ydynt yn rhan annatod o raglen a ddiffinnir fel un addysg uwch yng nghyd-destun y wlad astudio.

Mae'r diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr ag Addysg Uwch wedi'i ddiffinio ymhellach ar gyfer staff yn yr **UD ac Awstraliasia**. Os ydych yn ansicr a yw'r enghreifftiau o arfer yn eich cais yn cyflawni'r gofynion uchod o ran cymhwysra, cysylltwch â'r Swyddfa Academiaidd yn HEAapplications@uwtsd.ac.uk




2 Fframwaith Safonau Proffesiynol 2023 (PSF 2023)

Mae **Fframwaith Safonau Proffesiynol 2023 (PSF)** ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu **mewn addysg uwch** yn darparu set gynhwysfawr o safonau a chanllawiau proffesiynol ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch. Gall unigolion ddefnyddio PSF 2023 i gynllunio eu datblygiad a dangos eu harfer er mwyn cael cydnabyddiaeth broffesiynol. Gall sefydliadau ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus a rhaglenni cydnabyddiaeth, a gellir ei ddefnyddio ar lefel genedlaethol i wella ansawdd addysgu a dathlu llwyddiant.

Mae'r Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023 yn cynnwys dwy elfen: **Disgrifyddion a Dimensiynau**

Ffigur 1: Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF 2023)



Mae **Disgrifyddion PSF (PSF, t6)** yn set o ddatganiadau meini prawf (a elwir yn 'feini prawf' y Disgrifyddion). Mae'r rhain yn diffinio nodweddion allweddol pedwar categori bras o arfer. Gan ymgorffori'r Dimensiynau, mae pob Disgrifydd yn nodi ehangder yr arfer sydd ei angen i'w gyflawni ac yn cydnabod yr amrywiaeth o arfer a rolau a ymgwymerir gan weithwyr proffesiynol sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu. Mae pob Disgrifydd yn cynnwys cyflwyniad a set o dri datganiad meini prawf.

Trefnir Dimensiynau'r Fframwaith (PSF 2023) yn dair **set gysylltiedig** o bum **Gwerth Proffesiynol**, pum math o **Wybodaeth Graidd** a phum **Maes Gweithgarwch**.

Gwerthoedd Proffesiynol (V1-5): mae'r rhain yn sail i'r holl Wybodaeth Graidd a Meysydd Gweithgarwch. Dyma yw sylfaen arfer proffesiynol.

Gwybodaeth Graidd (K1-5): yn seiliedig ar y Gwerthoedd Proffesiynol, mae'n cynrychioli ffurfiau allweddol o wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â'r Meysydd Gweithgarwch. Mae nifer o ffurfiau amrywiol o wybodaeth sy'n gysylltiedig â chymunedau a chyd-destunau ac sy'n cael eu siapio ganddynt.

Meysydd Gweithgarwch (A1-5): mae'r rhain yn dod â'r Gwerthoedd Proffesiynol a'r ffurfiau o Wybodaeth Graidd at ei gilydd, gan ddangos y gweithgareddau hanfodol sy'n cefnogi darparu arfer effeithiol.

AU Ymlaen sy'n gweithredu'r **cynllun Cymrodoriaeth** ac mae ei gymrodoriaethau yn cyd-fynd â Disgrifyddion PSF 2023 fel a ganlyn

- + Mae Disgrifydd 1 (D1) yn cyd-fynd â Chymrawd Cysylltiol
- + Mae Disgrifydd 2 (D2) yn cyd-fynd â Chymrawd
- + **Mae Disgrifydd 3 (D3) yn cyd-fynd ag Uwch Gymrawd**
- + Mae Disgrifydd 4 (D4) yn cyd-fynd â Phrif Gymrawd

Gall unigolion gael eu cydnabod gan AU Ymlaen, yn dibynnu ar natur eu dysg proffesiynol a'u harfer a'u profiad addysgu mewn un o bedwar categori cymrodoriaeth. Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar **Uwch Gymrodoriaeth (Disgrifydd 3)**.


I gyflawni **Uwch Gymrodoriaeth**, mae angen i chi ddangos bod eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu yn amlygu gofynion tri maen prawf **Disgrifydd 3 (D3)**, sydd fel a ganlyn:

Mae **Disgrifydd 3** yn addas ar gyfer unigolion y mae eu **dealltwriaeth gynhwysfawr ac arfer effeithiol yn darparu sylfaen iddynt arwain neu ddylanwadu** ar y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel. Mae unigolion yn gallu dangos:

- + **D3.1** cofnod parhaus o arwain neu ddylanwadu ar arfer y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel
- + **D3.2** arfer sy'n effeithiol, yn gynhwysol ac sy'n integreiddio'r holl Ddimensiynau
- + **D3.3** arfer sy'n ymestyn yn sylweddol y tu hwnt i addysgu uniongyrchol a/neu gymorth uniongyrchol ar gyfer dysgu.

Fel y dangosir uchod, mae datganiadau meini prawf Disgrifydd 3 yn ymgorffori pob un o 15 Dimensiwn PSF 2023, fel y gwelir yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2: Dimensiynau Fframwaith PSF 2023



3 Datblygu eich cais

Wrth gynllunio a datblygu eich cais, rydym yn argymhell eich bod yn cyrchu adnoddau AU Ymlaen ac yn dilyn y dilyniant o weithgareddau a nodir yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3 – Camau wrth ddatblygu eich cais

1

- Darllenwch PSF2023 a chwblhau hyfforddiant PSF2023 yn y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle
- Cwblhewch yr [Offeryn Categori Cymrodoriaeth](#)
- Gofynnwch am, a chael eich neilltuo i, fentor

2

- Defnyddiwch y ddogfen [Guide to PSF2023 Dimensions](#) i adnabod arfer priodol
- Trafodwch eich arfer gyda'ch mentor
- Dilynwch y canllawiau i ymgeiswyr am Uwch Gymrodoriaeth i ysgrifennu eich cais a deunyddiau ategol yn y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle
- Defnyddiwch y templed cais i baratoi drafft terfynol

3

- Cwblhewch gais drafft a'i anfon at eich mentor am adborth. Gwnewch unrhyw newidiadau angenrheidiol ar ôl cael adborth
- Rhannwch y cais drafft terfynol gyda'ch canolwyr
- Cyflwynwch y ffurflen gais ysgrifenedig a'r Datganiad Cefnogi ar y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle

3.1 Cam 1

Mae Adran 2 uchod yn egluro Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023. Caiff eich cais ei adolygu yn erbyn Disgrifydd 3 y fframwaith hwn (PSF 2023, t9).

Cyn dechrau defnyddio'r canllawiau hyn, rydym yn eich cyngori i gwblhau Offeryn Categori Cymrodoriaeth AU Ymlaen, [Advance HE Fellowship Category Tool](#) (fersiwn PSF 2023), sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ar wefan AU Ymlaen (mae'r ddolen ar gael ar y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle).

Mae'r Offeryn Categori Cymrodoriaeth (FCT) yn cynnwys set o ddatganiadau sy'n cyd-fynd â Dimensiynau gwahanol Fframwaith a Disgrifyddion PSF 2023. Bydd yr offeryn hunan-ddadansoddi hwn yn gofyn am eich gweithgareddau proffesiynol o ran addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch (AU). Trwy ddefnyddio'r offeryn i ystyried eich arfer presennol a diweddar, dylai eich dewis o ddatganiadau wrth i chi symud ymlaen helpu i gadarnhau mai Uwch Gymrodoriaeth (Disgrifydd 3) yw'r categori mwyaf priodol o gymrodoriaeth i chi. Sylwch fod cywirdeb yr offeryn yn dibynnu ar y dewisiadau rydych chi'n eu dewis wrth i chi weithio drwyddo. Wrth i chi edrych drwy'r dogfennau canllaw, os ydych chi'n teimlo nad ydych eto yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol ar gyfer Disgrifydd 3, yna gallwch ddefnyddio'r adroddiad a ddarperir drwy ymgymryd â'r FCT i lywio datblygiad eich arfer ymhellach cyn gwneud cais llwyddiannus.

Yn y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle, fe welwch y canlynol:

- [Guide to the PSF 2023 Dimensions – Senior Fellowship](#)
- Uwch Gymrodoriaeth: Canllawiau i Ymgeiswyr (y ddogfen hon)

- Templed Cais Uwch Gymrodoriaeth
- Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Cefnogi a'r Templed Datganiad Cefnogi cysylltiedig (i'w ddefnyddio gan eich canolwr)
- Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023
- Dolen i Offeryn Categori Cymrodoriaeth AU Ymlaen / [Advance HE Fellowship Category Tool](#) (fersiwn PSF 2023)
- Fideo hyfforddi PSF 2023

Ar ôl i chi ddarllen y canllawiau hyn, cwblhau'r fideo hyfforddi a defnyddio'r Offeryn Categori Cymrodoriaeth, bydd angen i chi ofyn am, a chael eich neilltuo i, fentor. Bydd angen i chi anfon e-bost i heaapplications@uwtsd.ac.uk gyda'r wybodaeth ganlynol:

1. Eich enw
2. Eich disgyblaeth a'ch athrofa, neu'ch uned (fel y bo'n briodol)
3. Y categori o gymrodoriaeth rydych chi'n gwneud cais amdano

3.2 Cam 2

Canllaw i Ddimensiynau PSF 2023 – Uwch Gymrodoriaeth Gysylltiol (D3)

Rydym yn argymhell eich bod yn dechrau trwy ddarllen [‘Guide to the PSF 2023 Dimensions – Senior Fellowship \(D3\)’](#) gan AU Ymlaen. Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno ac yn esbonio PSF 2023 ac yna'n canolbwyntio ar bob un o 15 Dimensiwn PSF 2023 i'ch cefnogi i feddwl am eich arfer a nodi tystiolaeth bosibl sy'n briodol i **Ddisgrifydd 3 (D3)** PSF 2023, sy'n sail i ddyfarnu Uwch Gymrodoriaeth.

Mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar bob Dimensiwn yn fanwl iawn. Rydym yn cynnwys llawer o enghreifftiau gwahanol o arfer i adlewyrchu'r ystod eang o rolau a chyd-destunau y mae ymarferwyr addysg uwch yn gweithio ynddynt yn y sector addysg uwch byd-eang. Yn ogystal mae cwestiynau ysgogi i'ch helpu i feddwl am eich arfer mewn perthynas â phob Dimensiwn.

Mae'r cwestiynau a'r enghreifftiau a ddarperir yn rhai **dangosol yn unig** ac efallai na fyddant yn berthnasol i'ch arfer chi; efallai y bydd gennych enghreifftiau gwahanol priodol, yn dibynnu ar eich cyd-destun unigryw eich hun. Dylech ganolbwyntio eich defnydd o'r 'Canllawiau' ar y cwestiynau a'r enghreifftiau sydd fwyaf perthnasol i chi a'ch cyd-destun, i nodi tystiolaeth i'w defnyddio yn eich cais.

Uwch Gymrodoriaeth: Canllawiau i Ymgeiswyr

Ar ôl i chi nodi sut, yn eich cyd-destun chi, rydych wedi defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol priodol, cymhwyso Gwybodaeth Graidd, a dangos arfer effeithiol a chynhwysol ym mhob un o'r pum Maes Gweithgarwch o fewn eich arfer fel y bo'n briodol i Ddisgrifydd 3, dylech wedyn ddechrau defnyddio'r ddogfen ganllaw hon i ymgeiswyr i ddeall fformat a gofynion y cais yn ogystal â sut i gyflwyno cais.

3.3 Cam 3

Unwaith y bydd eich cais drafft wedi'i gwblhau o fewn y templed, mae angen i chi rannu hyn gyda'ch ddau ganolwr. Yna byddant yn gallu defnyddio'r 'Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Cefnogi' a'r Templed Datganiad Cefnogi cysylltiedig.

4 Eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol

Mae **dwyr ran** i'ch cais uniongyrchol am Uwch Gymrodoriaeth:

- + **Adroddiad ysgrifenedig am Arfer Proffesiynol sy'n cynnwys y canlynol;**
 - + Datganiad Cyd-destun (300 o eiriau);
 - + Naratif Adfyfyriol a dwy Astudiaeth Achos (6,000 o eiriau) (Gweler Adran X)
 - + rhestr gyfeiriadau (500 o eiriau).
- + **Dau Ddatganiad Cefnogi gan ganolwyr** (gweler Adran X).

Mae Uwch Gymrodoriaeth yn seiliedig ar fodloni Disgrifydd 3 (D3) PSF 2023 a'ch Adroddiad am Arfer Proffesiynol yw craidd eich cais.

Mae'r Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn cynnwys Datganiad Cyd-destun (gweler Adran 4.2), Adroddiad Adfyfyriol a dwy Astudiaeth Achos (gweler Adran 6).

Mae eich **Datganiad Cyd-destun** yn darparu crynodeb byr o'ch rolau addysg uwch, eich cyfrifoldebau a'ch profiad proffesiynol, a rhyngddynt dylai eich **Naratif Adfyfyriol a dwy Astudiaeth Achos** ddarparu tystiolaeth bod eich arfer proffesiynol yn bodloni gofynion **Disgrifydd 3** PSF 2023.

Mae sawl ffurf o addysg uwch a cheir cryn amrywiaeth yn y gwahanol rolau y mae gweithwyr proffesiynol addysg uwch yn eu cyflawni; er enghraifft, o ran profiad, cefndir disgyblaethol, rôl swydd, cyd-destun sefydliadol, ac ati. Mae eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn gyfrif personol a dylai ganolbwyntio drwyddi draw ar eich arfer proffesiynol eich hun; gwnewch e'n bersonol i'ch arfer penodol, unigol ac unigryw chi.


Bydd eich **dau Ddatganiad Cefnogi** yn cadarnhau a chymeradwyo bod yr hyn rydych chi'n ysgrifennu amdano yn eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn cynrychioli eich arfer mewn ffordd ddilys (gweler Adran 7).

Mae dyfarniad Uwch Gymrodoriaeth yn seiliedig ar **dystiolaeth o'ch arfer effeithiol a chynhwysol**; efallai y byddwch yn sôn yn fyr am gynlluniau ar gyfer y dyfodol fel rhan o nodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac unrhyw newidiadau rydych chi'n bwriadu eu gwneud yn y dyfodol, fodd bynnag, bydd eich cais yn cael ei farnu yn ôl a yw'ch tystiolaeth o arfer diweddar (fel arfer dros y 3-5 mlynedd diwethaf) yn bodloni gofynion Disgrifydd 3.

Bydd eich tystiolaeth yn erbyn Disgrifydd 3 yn cael ei ysgrifennu yn eich **Naratif Adfyfyriol a dwy Astudiaeth Achos**.

Ar gyfer Disgrifydd 3, mae angen i'r enghreifftiau rydych chi'n dewis ysgrifennu amdanynt ddangos sut mae eich arfer yn cefnogi dysgu o ansawdd uchel **trwy arwain/dylanwadu** ar arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu pobl eraill (cydweithwyr, cymheiriaid, menteion, mewnol/allanol, ac ati); dangosir hyn yn Ffigur 4 isod.

Ffigur 4: Effaith yr Uwch Gymrawd ar ddysgu mewn AU drwy arwain neu ddylanwadu ar arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu pobl eraill



Gall 'pobl eraill', er enghraifft, fod yn gydweithwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â chi, neu gydweithwyr sy'n gweithio mewn timau eraill. Gallent fod yn fenteion neu gyd-aelodau pwyllgorau. Gallent fod yn gweithio mewn addysg uwch, neu o fewn eich maes disgyblaeth neu gorff proffesiynol. Gallant fod yn unigolion o leoliadau diwydiant neu leoliadau arfer sydd â rôl mewn addysgu a / neu gefnogi dysgu mewn AU.

Nid yw Uwch Gymrodoriaeth yn **dibynnu ar y rôl**; mae nifer o gyd-destunau gwahanol lle gallech fod yn arwain a/neu'n dylanwadu ar arfer pobl eraill. Mae'n hollbwysig sylweddoli, er bod gwaith uniongyrchol gyda myfyrwyr yn rhan hanfodol o addysg uwch, nid yw'n sail i gais llwyddiannus am Uwch Gymrodoriaeth.

Efallai eich bod yn dal i gyflawni rôl sylweddol yn addysgu neu'n gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr i gefnogi dysgu; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn enghreifftiau y dylech ddewis canolbwyntio arnynt yn eich cais am Uwch Gymrodoriaeth. Mae'r disgwyliadau ar gyfer ymgysylltu â Dimensiynau PSF 2023 yn Nisgrifydd 3 yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir yn Nisgrifydd 2, sy'n canolbwyntio ar waith uniongyrchol gyda dysgwyr.

Efallai nad ydych wedi gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr o'r blaen; er enghraifft, efallai bod gennych gyfrifoldebau cynghori addysgu a/neu gefnogi dysgu adrannol a / neu ehangach o fewn sefydliad ond nad ydych wedi gweithio fel ymarferydd yn uniongyrchol gyda myfyrwyr. I ddangos tystiolaeth o Ddisgrifydd 3, bydd angen i chi allu dangos eich '**dealltwriaeth gynhwysfawr a'ch arfer effeithiol**' sy'n '**darparu sail i'ch gwaith wrth arwain neu ddylanwadu**' ar arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu '**pobl eraill**'.

4.1 Mae eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn adroddiad personol

Meddylwch am eich cais fel 'hawliad'; rydych chi'n hawlio bod eich gwaith yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu o ansawdd uchel. Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ddau adolygydd cymheiriaid profiadol ac mae angen i chi ddangos i'r adolygwyr hyn bod rhesymeg glir y tu ôl i'r ffordd rydych chi'n gweithio a'r dewisiadau rydych chi'n eu gwneud yn eich arfer.

Ysgrifennwch yn y person cyntaf (defnyddiwch 'i/fi/mi') er mwyn gwneud yn glir beth rydych **chi**'n ei wneud/wedi ei wneud. Ceisiwch osgoi trafod addysgu mewn termau cyffredinol neu haniaethol gan fod hyn yn symud y cais i ffwrdd o fod amdanoch **chi a'ch arfer personol eich hun** ac ni fydd yn helpu eich 'hawliad' personol yn erbyn Disgrifydd 3. Os ydych chi eisiau cynnwys gwaith a wnaethoch fel rhan o dîm/gyda chydweithwyr/pobl eraill (V5), mae angen i chi fod yn glir beth oedd eich cyfraniad personol chi.

Rhaid cyflwyno eich cais yn **Gymraeg neu Saesneg**.

Sylwch **na fyddwn** yn derbyn diagramau, delweddau, hyperddolenni nac unrhyw ddogfennau/atodiadau eraill fel curriculum vitae/crynodeb.

4.2 Datganiad Cyd-destun

Datganiad Cyd-destun (hyd at 300 gair) yw rhan gyntaf eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol a dylech gyflwyno'ch hun yn **gryno** ac **amlinellu** eich rôl(au) a'ch cyfrifoldebau addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch. Bydd y wybodaeth yn eich Datganiad Cyd-destun yn helpu'r adolygwyr i ddeall natur eich gwaith a'r cyd-destun lle rydych chi'n arfer, cyn iddynt edrych ar y dystiolaeth a ddarparwch yn eich Naratif Adfyfyriol a'ch Astudiaethau Achos yn erbyn Disgrifydd 3 PSF 2023; mae'r adran hon yn darparu **cefnidir** i'ch Naratif Adfyfyriol a'ch Astudiaethau Achos ac nid yw'n cael ei 'asesu' yn erbyn Disgrifydd 3.

Mewn dim mwy na 300 o eiriau dylai eich Datganiad Cyd-destun:

- + roi crynodeb **byr** o'ch profiad o addysgu a/neu gefnogi dysgu, gan gynnwys y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo ar hyn o bryd, eich rôl a'ch cyfrifoldebau presennol wrth addysgu a/neu gefnogi dysgu. Nodwch y math o sefydliad(au) rydych chi'n gweithio iddynt a'r lleoliad, gan y bydd hyn yn helpu i nodi'r cyd-destun ar gyfer eich gwaith, ond cadwch hyn yn fyr ac yn berthnasol i'ch rôl. Peidiwch â chynnwys manylion am hanes a bri y sefydliad(au), gan fod eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn ymwneud â chi a'ch arfer.
- + **Nodwch** y myfyrwyr/cydweithwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw; er enghraifft, lefel astudio'r myfyrwyr (e.e. blwyddyn astudio, israddedig, ôl-raddedig, ac ati), rhaglen(ni)/ uned(au) astudio, disgyblaeth/maes arbenigedd, nifer a mathau o ddysgwyr ac ati; Ar gyfer Uwch Gymrodoriaeth, gall eich gwaith gyda myfyrwyr fod yn fwy anuniongyrchol, gan y gallwch weithio'n agosach gyda chydweithwyr/timau/sefydliadau allanol/cyrff proffesiynol, ac ati; os felly nodwch yr agweddau hyn ar eich gwaith.
- + **amlinellwch** eich rôl(au) / profiad presennol a diweddar sy'n gysylltiedig â dylanwadu ar ac arwain arferion pobl eraill; er enghraifft, cefnogi, goruchwyllo, rheoli, mentora, ac ati.
- + canolbwyntiwch ar eich **arfer cyfredol a diweddar**, a ddylai allu dangos eich **effaith barhaus** o ran Disgrifydd 3, fel arfer dros y 3-5 mlynedd diwethaf;
- + cofiwch fod eich cais am Uwch Gymrodoriaeth yn seiliedig ar eich **arfer mewn addysg uwch**.

Gan nad yw'r Datganiad Cyd-destun yn cael ei asesu yn rhan o'ch cais, nid oes angen i chi gysylltu'r wybodaeth hon â'r PSF. Ni fydd yr adolygwyr yn ystyried y wybodaeth yn y Datganiad Cyd-destun pan fyddant yn asesu eich cais; felly, **ni ellir** ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth atodol a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o arfer effeithiol i'ch cais am Uwch Gymrodoriaeth yn eich Naratif Adfyfyriol a'ch Astudiaethau Achos (h.y. ni ellir ei ddefnyddio i ymestyn y terfyn geiriau o 6,000 am yr elfennau hyn).

Mae'r ddwy enghraifft isod yn dangos y mathau o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'w cynnwys yn y Datganiad Cyd-destun i osod cefndir eich arfer:

Enghraifft 1:

Rwyf yn Rheolwr Sgiliau Dysgu mewn prifysgol sy'n canolbwyntio ar ymchwil (25,000 o fyfyrwyr). Rwyf yn gweithio ym maes datblygu sgiliau dysgu ers 8 mlynedd ac yn rheoli tîm sy'n cynnwys chwe thiwtor arall erbyn hyn. Mae ein tîm yn cynorthwyo myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig i ddatblygu ystod o sgiliau i'w cynorthwyo i astudio ar raglenni academaidd. Un o feysydd mawr ein gwaith yw'r cymorth i fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng eu hail iaith.

Datblygais system mentora cymheiriaid i fyfyrwyr, ac erbyn hyn, rwyf yn rheoli'r system honno, sy'n rhedeg ers pum mlynedd bellach. Ei diben yw cynorthwyo myfyrwyr rhyngwladol newydd i gynefino â bywyd yn y brifysgol, gan hybu pontio i'r flwyddyn gyntaf a gwneud cynnydd. Rwyf yn cydweithio'n agos mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i ddethol a hyfforddi mentoriaid.

Rwyf hefyd yn cydweithio â Phenaethiaid Ysgolion i ddarparu cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff academaidd yn ymwneud ag addysgu myfyrwyr rhyngwladol a llunio cwricwla cynhwysol. Yn ogystal ag arwain sesiynau datblygu staff, rwyf wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau ar-lein i gynorthwyo cydweithwyr.

Rwyf yn addysgu grwpiau o 25-30 o fyfyrwyr mewn gweithdai ac yn cynnal tiwtorialau ar gyfer grwpiau bach. Rwyf yn ymchwilydd gweithgar ac yn cyhoeddi fy ngwaith yn rheolaidd.

Oddi allan i'r Brifysgol, rwyf yn gadeirydd Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol Cymdeithas XX ac yn cynllunio'r cylch gweithgareddau DPP blynyddol, yn trefnu'r Symposiwm blynyddol ac yn cynnal sesiynau DPP wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer yr aelodau.

Enghraifft 2:

Rwyf yn Brif Ddarlithydd yng Ngholeg Celf Y ac yn Arweinydd Pwnc y rhaglenni Meistr ôl-raddedig mewn Dylunio Graffig a Chyfathrebu Gweledol. Mae gan y Coleg 2,500 o fyfyrwyr, 150 aelod o staff amser llawn, darlithwyr sesiynol ac artistiaid gwadd.

Rwyf yn addysgu ym maes Addysg Uwch ers 10 mlynedd, ac roeddwn yn ddylunydd graffig cyn hynny. Rwy'n dal i wneud gwaith ar fy liwt fy hun, ac mae hynny'n cyfoethogi fy addysgu.

Mae gennyf radd PhD mewn Cyfathrebu Gweledol; cychwynnais astudio ym maes addysg uwch fel dysgwr aeddfed trwy gyfrwng Rhaglen Sylfaen ac astudiais fel myfyriwr israddedig rhan amser.

Nid oes gennyf unrhyw gyfrifoldebau ffurfiol fel rheolwr llinell dros staff yn fy Ysgol, ond fel rhan o'm rôl fel Arweinydd Pwnc y rhaglenni Meistr, rwyf yn cydlynu gwaith addysgu pedwar aelod llawn amser o'r staff, tri darlithydd sesiynol a dau dechnegydd sy'n cynorthwyo â'r rhaglenni. Rwyf yn arwain y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Coleg, ac rwyf wedi gweithio ar nifer o fentrau dysgu ac addysgu traws-sefydliadol.

Rwyf yn ymchwilydd gweithgar ac rwyf wedi cyhoeddi gwaith mewn sawl cyfnodolyn yn ymwneud ag addysgu ym maes fy nisgyblaeth. Rwyf yn aelod o rwydwaith pwnc cenedlaethol sy'n cynnwys 20 o sefydliadau addysg uwch, ac rwyf wedi arwain prosiect addysgu cydweithredol, rhywbeth rwyf yn ei drafod yn Astudiaeth Achos 1.

Cwblheais fy Nhystysgrif i Raddedigion mewn Dysgu ac Addysgu mewn AU bum mlynedd yn ôl, ac ers hynny, rwyf wedi mentora tri aelod o'r staff oedd yn ymgymryd â'r rhaglen bob blwyddyn. Rwyf yn rhoi sylw i fy rôl mentora yn Astudiaeth Achos 2.

Byddaf fel arfer yn goruchwyllo 2 neu 3 myfyriwr PhD a hyd at bedwar myfyriwr israddedig sy'n ymgymryd â phrosiectau'r flwyddyn olaf.

Rwyf yn addysgu ar chwech o fodylau'r rhaglenni Gradd Meistr ac rwyf yn dal i addysgu rhywfaint o gyrsiau i israddedigion (2-3 modwl bob blwyddyn).

4.3 Y Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos

Yr uchafswm geiriau at ei gilydd ar gyfer Naratif Adfyfyriol a dwy Astudiaeth Achos yw **6,000 o eiriau**; Sylwch fod y Swyddfa Academaidd yn gwirio'r cyfanswm geiriau yn rhan o'r broses gyflwyno.

Hefyd neilltuir hyd at **500 o eiriau** ar gyfer eich Rhestr Gyfeiriadau (gweler Adran XX isod).

Gallwch ddewis sut i rannu cydbwysedd y 6,000 o eiriau ar draws eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos; argymhellwn y dylech anelu at ddefnyddio tua 2,000 o eiriau yn y Naratif Adfyfyriol a thua 2,000 o eiriau yn mhob Astudiaeth Achos.

Ar gyfer Uwch Gymrodoriaeth (D3) mae angen i chi ddangos '**record barhaus' o arwain neu ddylanwadu (D3.1)**'; canolbwyntiwch ar nodi enghreifftiau priodol o'ch arfer diweddar, fel arfer o'r 3-5 mlynedd diwethaf. Os oes angen i chi gyfeirio'n ôl at arfer o fwy na 5 mlynedd yn ôl, mae angen i chi sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar sut mae hyn bellach yn dylanwadu ar eich arfer cyfredol.

Bydd hefyd angen i chi ddangos bod eich arfer yn **effeithiol, yn gynhwysol ac yn integreiddio'r holl Ddimensiynau (D3.2)**.

Ar gyfer **D3.3**, bydd angen i'ch tystiolaeth ddangos bod eich **arfer yn ymestyn yn sylweddol** y tu hwnt i addysgu uniongyrchol a/neu gymorth dysgu uniongyrchol (fel y dangosir yn Ffigur XX).

Mae Adran XX o'r ddogfen ganllaw hon yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am sut i fynd i'r afael â thri datganiad meini prawf Disgrifydd 3 ac mae Adran XX yn darparu canllawiau ar sut i gynllunio a strwythuro eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos.

O fewn eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos, rhwch enghreifftiau **dethol** o'ch arfer a sicrhewch eu bod yn uniongyrchol berthnasol i'ch cais am Uwch Gymrodoriaeth ac yn gwneud achos cryf yn erbyn Disgrifydd 3. Mae ansawdd yr enghreifftiau o dystiolaeth yn bwysicach o lawer na'r nifer.

4.4 Adfyfyrio ar eich arfer

Mae datblygu eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos yn gofyn i chi nodi/casglu ac ystyried tystiolaeth o'ch arfer, gan adfyfyrio ar yr effaith rydych chi wedi'i chael ar y dysgu o ansawdd uchel gan fyfyrwyr trwy eich gwaith yn arwain a/neu'n dylanwadu ar arferion dysgu ac addysgu pobl eraill. Dylech gynnwys rhesymeg briodol am y dulliau a ddefnyddiwyd gennych gan ddangos tystiolaeth o effeithiolrwydd eich arfer; defnyddiwch enghreifftiau o'ch arfer i wneud yn glir **beth** wnaethoch chi, **pam/sut** y gwnaethoch hynny y ffordd honno a **sut rydych chi'n gwybod** fod hyn yn **effeithiol**.

Dylech osgoi disgrifiadau hir o'r hyn a 'wnaethoch' a siarad yn **adfyfyriol** fel ei bod yn glir beth wnaethoch chi, sut/pam y gwnaethoch chi hynny y ffordd honno, sut rydych chi'n gwybod bod hyn yn effeithiol a beth fyddwch chi'n ei wneud yn y dyfodol o ganlyniad.

Bydd ysgrifennu 'pam y gwnaethoch hynny y ffordd honno' yn eich galluogi i ddarparu **tystiolaeth ar gyfer V3**: defnyddio ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu ddulliau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail ar gyfer arfer effeithiol.

Un **model adfyfyriol syml** y gallech ei ddefnyddio drwy gydol eich Naratif Adfyfyriol fyddai esbonio'n glir:

- + **beth** wnaethoch chi (byddwch yn ddetholus gyda'r enghreifftiau y dewiswch eu cynnwys)
- + **pam** y gwnaethoch chi hynny y ffordd honno; esboniwch eich dull yn glir a chyfiawnhau eich dewisiadau a'ch penderfyniadau (e.e. defnyddio dull priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weddu i'ch cyd-destun, ac ati);
- + **sut** y cyflawnoch chi'r dull hwn (e.e. gan gynnwys unrhyw heriau penodol neu faterion ymarferol y bu'n rhaid i chi eu goresgyn);
- + sut y **gwerthusoch chi effeithiolrwydd** yr hyn a wnaethoch (esboniwch y mathau o 'wybodaeth' a ddefnyddiwyd gennych i adolygu a gwerthuso eich gwaith, gan gynnwys yr effaith y cafodd hyn ar y dysgu gan ddysgwyr trwy eich dylanwad ar arferion cydweithwyr);
- + **pa newidiadau** a wnaethoch o ganlyniad i werthuso eich effeithiolrwydd; er enghraifft, datblygu eich sylfaen dystiolaeth (V3) neu ymwneud â datblygiad proffesiynol (A5), ac ati, a chymhwyso'r hyn a ddysgoch ar sail hyn i wella eich arfer (defnyddiwch enghreifftiau i ddangos hyn).

4.5 Rhestr Gyfeiriadau

Bydd angen i chi gyfeirio at eich sylfaen dystiolaeth yn eich Naratif Adfyfyriol a'ch Astudiaethau Achos i esbonio sut/pam rydych chi wedi dewis y dulliau rydych chi'u defnyddio. Mae V3 yn gofyn am dystiolaeth o'ch defnydd o ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu ddulliau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail ar gyfer arfer effeithiol. Bydd sut rydych chi'n dangos tystiolaeth o hyn yn dibynnu ar y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo, natur y pwnc, y ddisgyblaeth neu'r proffesiwn neu'r maes gwasanaeth, y ffyrdd y byddwch chi'n dylanwadu ar arfer eich cymheiriaid, cyd-destun/disgwyliadau'r sefydliad rydych chi'n gweithio ynddo, ac ati.

Dylech ddyfynnu/cyfeirio at y 'sylfaen dystiolaeth' rydych chi'n ei defnyddio i lywio'ch arfer lle bo hynny'n briodol yn y testun. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n cyfeirio at lenyddiaeth sy'n gysylltiedig â theori addysgeg neu arweinyddiaeth academiaidd mewn papurau cyfnodolion (e.e. Smith, 2019), cyhoeddiadau, llyfrau, gwefannau, ac ati neu'n cyfeirio at dystiolaeth gan gyrff proffesiynol, diwydiant neu'ch disgyblaeth (eich sylfaen 'gwybodaeth broffesiynol'). Pan fyddwch chi'n dyfynnu cyfeiriad, mae'n rhaid iddo fod yn amlwg sut mae hyn wedi dylanwadu ar eich arfer (h.y. nid taflu'r cyfeiriad i mewn yn unig). Er enghraifft, gallech esbonio sut y cawsoch eich ysbrydoli gan awdur penodol neu erthygl cyfnodolyn i gynllunio ailddatblygu eich cwricwlwm mewn ffordd benodol.

Pan fyddwch chi'n dyfynnu cyfeiriad yn nhestun eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos, mae angen i chi gynnwys y wybodaeth lawn yn y Rhestr Gyfeirio. Gofynnwn i chi ddarparu rhestr lawn o'r holl gyfeiriadau rydych chi'n eu dyfynnu'n uniongyrchol fel bod adolygwyr yn glir ynghylch pa ffynonellau sydd wedi dylanwadu ar eich dull o ddysgu ac addysgu ac i gydnabod yn briodol awdur/sefydliad sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd o'ch arfer. Sylwch mai dim ond testun plaen y gall y system ymgeisio ar-lein ei dderbyn (h.y. ni dderbynnir troednodiadau).

Yr uchafswm geiriau ar gyfer y Rhestr Gyfeirio yw 500 o eiriau.

Mae'r darn byr hwn o gais am Uwch Gymrodoriaeth yn dangos sut mae'r ymgeisydd yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth i lywio ei arfer (V3) ac yn cynnwys y cyfeiriad llawn yn y Rhestr Gyfeirio:

Ar ôl gwerthuso adborth a deilliannau myfyrwyr o'r flwyddyn gychwynnol hon o gyflwyno ein rhaglenni gradd busnes ar-lein, nodais yr angen i wella'r gefnogaeth ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf wrth iddynt drosglwyddo i addysg uwch (K3). Yn gyntaf, ymchwiliais i'r dulliau a ddilynir gan ddarparwyr sefydledig mewn addysg o bell a'u llwyddiant wrth ddarparu cymorth bugeiliol ac academiaidd i nodi arfer da, ac yna arweiniais ddiwrnod tîm i ystyried y ffordd orau o weithredu dulliau effeithiol yn ein cyddestun ein hunain (Hilliam a Williams, 2019) (V3).

Rhestr gyfeiriadau:

Hilliam, R. a G. Williams (2019). 'Academic and pastoral teams working in partnership to support distance learning students according to curriculum area', Higher Education Pedagogies, 4:1, tt. 32- 40.

5 Dangos tystiolaeth ar gyfer Disgrifydd 3

Fel y nodwyd yn gynharach, mae amrywiaeth sylweddol yn y gwahanol rolau a chyfrifoldebau sydd gan unigolion sy'n sylfaen iddynt arwain neu ddylanwadu ar arferion eu cymheiriaid. Nid yw Uwch Gymrodoriaeth wedi'i chyfyngu i'r rhai sy'n dal rolau arwain ffurfiol. Mae rhai Uwch Gymrodyr yn dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgu a chefnogi dysgu uniongyrchol gyda dysgwyr, ac eraill nad ydynt yn gwneud hynny. Efallai y byddwch yn dal i wneud gwaith addysgu a/neu gefnogi dysgu uniongyrchol sylweddol gyda myfyrwyr, fodd bynnag, bydd angen i ffocws eich cais am Uwch Gymrodoriaeth fod ar y rhannau o'ch arfer lle rydych chi'n dylanwadu ar a/neu'n arwain arfer eich cymheiriaid.

Mae'r '[Guide to the PSF 2023 Dimensions – Senior Fellowship \(D3\)](#)' yn darparu llawer o wahanol enghreifftiau o arfer o amrywiaeth o gyd-destunau; dylai hyn eich cynorthwyo i ddeall beth allai, **yn eich cyd-destun chi**, fod yn dystiolaeth briodol i chi ei chynnwys yn eich cais.

5.1 Dangos tystiolaeth ar gyfer D3.2: Cofnod parhaus o arwain neu ddylanwadu ar arfer y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel

Mae cysylltiad cryf rhwng D3.1 a D3.3 a gyda'i gilydd maent yn gweithredu fel 'ffrâm' ar gyfer nodweddion cais am Uwch Gymrodoriaeth. Mae ffocws D3.1 ar ddisgrifio ac esbonio'r **broses a'r prosesau** rydych chi wedi'u cymryd i **arwain neu ddylanwadu** ar arfer pobl eraill sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu. Ar y llaw arall mae ffocws D3.3 yn ymwneud â darparu enghreifftiau penodol o'ch arfer effeithiol a chynhwysol, sy'n mynd y tu hwnt i'ch gwaith addysgu a/neu gefnogi dysgu uniongyrchol eich hun, ac effaith y gwaith hwn ar ddysgwyr (gweler Adran 5.3 isod).

Mae hefyd yn bwysig dangos tystiolaeth o natur **barhaus** eich gwaith sy'n arwain neu ddylanwadu ar eraill. Mae angen i chi ddangos bod eich record o arwain neu ddylanwadu yn un 'parhaus' trwy ddefnyddio enghreifftiau priodol o'ch arfer diweddar, fel arfer o'r 3-5 mlynedd diwethaf. Os oes angen i chi gyfeirio yn ôl at arfer o fwy na 5 mlynedd yn ôl, dylai'r ffocws fod ar ddangos sut mae hyn bellach yn dylanwadu ar eich arfer cyfredol.

Bydd y profiad o 'arwain' neu 'ddylanwadu' a welir mewn ceisiadau am Uwch Gymrodoriaeth yn amrywio'n fawr a gallai fod naill ai trwy rolau a/neu brosesau ffurfiol, neu gall fod yn fwy anffurfiol ei natur. Efallai eich bod yn cyflwyno tystiolaeth yn erbyn D3.1 sef arwain neu ddylanwadu ar arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu pobl eraill o fewn rôl arweinyddiaeth ffurfiol; er enghraifft, arweinydd tîm, pennaeth gwasanaeth cymorth neu adran academiaidd, arweinydd pwnc academiaidd neu faes disgyblaeth, athro/darlennydd neu fel arweinydd un neu fwy o gyrsiau/rhaglenni AU. Efallai bod gennych gyfrifoldebau ffurfiol eraill fel mentor ar gyfer staff newydd, adolygydd cymheiriaid, arweinydd thematig, tiwtor personol, Arholwr Allanol, ac ati. Efallai eich bod yn gweithio mewn meysydd cymorth proffesiynol lle mae ffocws canolog eich cyfrifoldeb yn cynnwys rhoi arweiniad a / neu gefnogaeth i'r rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel, er enghraifft fel dylunwyr dysgu.

Gallai tystiolaeth o'ch arweiniad neu ddylanwad fod yn llai 'ffurfiol' ei natur. Er enghraifft, efallai eich bod yn cael eich cydnabod fel cydweithiwr profiadol yr ymgynghorir ag ef yn rheolaidd am eich arweiniad a'ch cefnogaeth. Efallai eich bod yn rhywun sydd ag arbenigedd penodol mewn un neu fwy o agweddau ar addysgu a/neu gefnogi, a gallwch ddangos tystiolaeth o **gofnod parhaus** o arwain neu ddylanwadu sy'n gysylltiedig â hyn, gan effeithio nid yn unig ar aelodau o'r tîm(au) rydych chi'n perthyn iddynt, ond hefyd ar eraill mewn gwahanol rolau a chyd-destunau proffesiynol; er enghraifft, fel gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn diwydiant sy'n arwain neu'n dylanwadu ar arfer dysgu ac addysgu pobl eraill. Efallai y byddwch yn gallu tynnu ar ddylanwad neu arweinyddiaeth mewn perthynas ag arfer arloesol lle rydych chi wedi bod yn arloeswr allweddol.

Wrth esbonio eich arfer eich hun wrth arwain neu ddylanwadu ar eraill, dylech dynnu ar ac integreiddio eich defnydd priodol o ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu dulliau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail ar gyfer arfer effeithiol (V3). Dylech hefyd esbonio sut rydych chi'n gwybod bod eich dulliau wedi bod yn effeithiol (K3: gwerthusiad beirniadol fel sail ar gyfer arfer effeithiol) a beth ddigwyddodd o ganlyniad i'ch dylanwad.

I fodloni gofynion D3.1 mae angen i chi egluro:

- + y cyd-destunau lle gwnaethoch ddylanwadu ar neu arwain arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu pobl eraill dros gyfnod parhaus
- + y dulliau a ddefnyddiwyd gennych i arwain/dylanwadu a'ch rhesymeg dros ddefnyddio'r dulliau hyn, gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth y gwnaethoch dynnu arni
- + sut y gwnaethoch chi sicrhau bod eich arweinyddiaeth neu ddylanwad yn effeithiol
- + sut y gwnaethoch werthuso'r canlyniad a defnyddio'r mewnwelediad hwn i lunio eich ymarfer yn y dyfodol.

Mae rhai enghreifftiau byr wedi'u cynnwys isod i **ysgogi eich meddwl** am wahanol ffyrdd y gallech ddarparu tystiolaeth o'ch record barhaus o arwain neu ddylanwadu ar arferion pobl eraill i gefnogi dysgu o ansawdd uchel yn unol â D3.1. Mae'r rhain yn **ddangosol yn unig** a dylech ddewis eich enghreifftiau eich hun i ddarparu tystiolaeth ar gyfer D3.1 yn eich cyd-destun eich hun.

Mentora

Efallai bod gennych brofiad o fentora cydweithwyr dros nifer o flynyddoedd a'ch bod yn gallu esbonio'r dulliau o fentora (gan gynnwys y rhesymeg) rydych chi wedi'u dilyn wrth gyflawni'r gwaith hwn. Wrth ddangos tystiolaeth ar gyfer D3.1 mae'n debygol y byddwch wedi mentora pobl eraill ar sawl achlysur, mewn gwahanol amgylchiadau. Trwy hyn dylech allu dangos record barhaus o arwain neu ddylanwadu ar y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel a nodi sut mae eich dylanwad ar wella arferion eich gwahanol fenteion wedi bod o fudd i'w dysgwyr.

Aelodaeth pwyllgorau

Gallai aelodaeth o bwyllgorau neu weithgorau/grwpiau gorchwyl fod yn sail i dystiolaeth tuag at Ddisgrifydd 3 os ydych yn gallu dangos tystiolaeth o'ch cyfraniad unigol eich hun i waith y grŵp hwnnw a dangos sut mae hyn wedi effeithio ar arferion dysgu ac addysgu cydweithwyr. Er enghraifft, os ydych chi'n aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Cymorth neu Bwyllgor Dysgu ac Addysgu Adrannol, efallai y byddwch chi'n gyfrifol am arwain grŵp gorchwyl sy'n edrych ar wella prosesau cynefino myfyrwyr. Mewn enghraifft o'r fath, byddech chi'n

trafod sut y gwnaethoch drefnu gwaith y grŵp gorchwyl hwnnw, a hefyd yn dangos sut mae canfyddiadau'r grŵp wedi dylanwadu ar weithredoedd a gymerwyd gan y pwyllgor ehangach a chyfrannu at eu penderfyniadau, wedi dylanwadu ar arfer cydweithwyr a, thrwy estyniad, wedi gwella profiad dysgu myfyrwyr.

Cyfrifoldebau Goruchwyllo

Mae goruchwyliaeth uniongyrchol o ymchwilwyr ôl-raddedig fel dysgwyr wrth lunio eu doethuriaeth yn cyd-fynd ag arfer Disgrifydd 2. Fodd bynnag, ceir ffyrdd gwahanol y gall eich cyfrifoldebau goruchwyllo ddarparu tystiolaeth briodol ar gyfer Disgrifydd 3. Er enghraifft, gall eich gwaith gynnwys cyfrifoldeb fel mentor neu oruchwyliwr ymchwilwyr ôl-raddedig yn eu rôl fel cynorthwywyr addysgu, a all ddarparu enghreifftiau o'ch dylanwad parhaus dros amser ar arfer yr unigolion hyn gyda dysgwyr. I roi enghraifft arall, efallai y byddwch yn arwain neu'n dylanwadu ar ysgogi prosesau neu brotocolau goruchwyllo ymchwil newydd sy'n cael eu mabwysiadu ac sy'n effeithio ar arferion dysgu ac addysgu goruchwylwyr ymchwil; trwy hyn dylech allu dangos eich rôl a'ch cyfraniad personol a nodi'r gwelliant sy'n deillio o hyn i ddysgwyr.

5.2 Dangos tystiolaeth ar gyfer D3.2: Arfer sy'n effeithiol, yn gynhwysol ac sy'n integreiddio'r holl Ddimensiynau

Dylech barhau i ddefnyddio'r [Guide to the PSF 2023 Dimensions – Senior Fellowship \(D3\)](#) wrth i chi fynd ymlaen â'ch cais. Mae'r 'Guide to...' yn ystyried pob un o 15 Dimensiwn PSF 2023 yn eu tro i esbonio beth mae pob un yn ymwneud ag ef ac yn darparu ystod eang o enghreifftiau nodweddiadol o arfer proffesiynol mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn AU sy'n berthnasol i'r Dimensiwn hwnnw fel sy'n briodol i Ddisgrifydd 3. Dylai'r canllawiau eich helpu i wneud cysylltiadau priodol rhwng eich arfer a Dimensiynau PSF 2023 a nodi tystiolaeth berthnasol i'w chynnwys yn eich cais am Uwch Gymrodoriaeth. Cofiwch ei bod yn rhaid i gais am Uwch Gymrodoriaeth ddangos tystiolaeth ar gyfer D3.2: arfer sy'n **effeithiol, yn gynhwysol ac sy'n integreiddio'r holl Ddimensiynau**.

Mae cwestiynau ysgogi ym mhob adran o'r 'Guide'. Dylai'r cwestiynau hynny eich helpu i ystyried a nodi tystiolaeth glir o'ch arfer effeithiol eich hun y gellid ei ddefnyddio yn eich cais am Uwch Gymrodoriaeth.

Er bod pob un o 15 Dimensiwn PSF 2023 yn cynrychioli agweddau gwahanol ar arfer mewn AU, mae'r **Dimensiynau yn rhyng-berthynol ac yn gydgyssylltiedig**. Er enghraifft, wrth ddylunio rhaglen (A1) bydd angen i chi ystyried sut mae dysgwyr yn dysgu fel y bo'n briodol i'r pwnc a'r lefel astudio (K1), y mathau o ddysgwyr (V2), y defnydd o dechnoleg (K4), y dulliau i'w defnyddio sy'n seiliedig ar dystiolaeth (V3), ac ati.

O fewn enghraifft o agwedd benodol ar eich arweinyddiaeth neu eich dylanwad ar eraill, mae'n bosibl y cewch dystiolaeth ar gyfer Gwerthoedd Proffesiynol, Gwybodaeth Graidd a Meysydd Gweithgarwch wrth i chi fynegi eich nodau, fel rhan o'ch rhesymeg dros pam y

gwnaethoch ddewis y dulliau a wnaethoch, neu yn yr esboniad o sut rydych chi'n gwybod bod eich arfer yn effeithiol, a/neu yn y ffordd rydych chi'n bwriadu datblygu a gwella eich arfer yn y dyfodol.

Wrth i chi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y Dimensiynau, dylech dynnu sylw at hyn lle bo hynny'n berthnasol. Un ffordd o wneud hyn yw cyfeirio at y Dimensiwn yn eich testun, e.e. (V1) neu (K1) ac ati. Gwnewch yn siŵr eich bod, ym mhob achos, yn cysylltu â'r Dimensiynau mwyaf perthnasol yn unig (e.e. un neu ddau rydych chi wedi ymgysylltu â nhw mewn ffordd ystyrlon yn yr enghraifft benodol honno o arfer) a dylech osgoi lunio rhestrau hir o gysylltiadau â Dimensiynau (e.e. K1, K2, K4, V1, V2, V3) gan na fydd hyn yn dangos eich ymgysylltiad ystyrlon â'r Dimensiynau.

Rhoddir enghraifft fer isod i ddangos sut mae Dimensiynau yn cael eu hintegreiddio o fewn arfer.

Un o'r enghreifftiau a ddefnyddiais yn fy nghais am Uwch Gymrodoriaeth oedd pan es i ati, fel Pennaeth Adran, i sefydlu gweithgor i edrych ar arferion asesu ac adborth adrannol (A3). Fy nodau oedd archwilio a mabwysiadu arfer gorau, i sicrhau mwy o gysondeb ar draws ein holl raglenni a sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i fod yn llwyddiannus mewn asesu (V2).

I ddechrau, roeddwn wedi ymchwilio i arfer gorau cyfredol mewn asesu o fewn fy nisgyblaeth, gan fynychu dwy gynhadledd ar asesu ac adborth, ac roeddwn hefyd wedi ystyried gwahanol dechnegau arwain y gallwn eu defnyddio i berswadio ac ysgogi cydweithwyr i newid eu harferion asesu (A5, V3).

Yna esboniais y dulliau a ddefnyddiais a'm rhesymeg dros y rhain (V3), gan ddarparu tystiolaeth yn y pen draw o'r effaith gadarnhaol a gafodd hyn ar arferion fy nghydweithwyr ac ar brofiad dysgu myfyrwyr o ganlyniad i hynny (K3).

Wrth i chi ddatblygu eich naratif cofiwch barhau i ddefnyddio'r [Guide to the PSF 2023 Dimensions – Senior Fellowship](#) i'ch cynorthwyo i wneud cysylltiadau rhwng eich arfer a'r Dimensiynau mwyaf perthnasol y dangosoch dystiolaeth ar eu cyfer ym mhob enghraifft.

5.3 Dangos tystiolaeth ar gyfer D3.3: arfer sy'n ymestyn yn sylweddol y tu hwnt i addysgu uniongyrchol a/neu gymorth uniongyrchol ar gyfer dysgu

Fel y soniwyd uchod yn Adran 5.1, mae cysylltiad cryf rhwng meini prawf D3.1 a D3.3 gan fod y gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag arwain neu ddylanwadu ar eraill sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu (D3.1) yn cynnwys arfer sydd wedi'i leoli y tu hwnt i gymorth uniongyrchol ar gyfer dysgu (D3.3), hyd yn oed os nad yw arfer o'r fath yn 'barhaus'.

Mae angen i chi esbonio'ch dulliau o arwain a dylanwadu ar arferion i fodloni D3.1 a bydd hyn yn gweithredu fel 'ffrâm' ar gyfer yr enghreifftiau rydych chi'n eu disgrifio'n fanwl ar gyfer D3.3; ond er mwyn bodloni D3.3 yn llawn mae angen i chi hefyd ddangos sut mae'r enghreifftiau wedi galluogi newid, er budd dysgwyr. Dylai'r enghreifftiau rydych chi'n eu defnyddio ddangos sut rydych chi wedi gweithio gydag eraill (cymorth i ddysgwyr, gwasanaethau proffesiynol, staff academiaidd neu addysgu, cyflogwyr neu weithwyr proffesiynol) i wella eu harferion dysgu ac addysgu ac esbonio sut mae hyn wedi bod yn

effeithiol wrth hyrwyddo dysgu o ansawdd uchel, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddysgwyr a'u profiad o ganlyniad i hynny (fel y nodir yn Ffigur 4 uchod).

Ar gyfer D3.3 mae'n bwysig dangos sut mae'r arfer rydych chi'n ei ddisgrifio yn cynnwys **enghreifftiau arwyddocaol** o sefyllfaoedd lle mae eich gwaith yn dylanwadu ar eraill ac yn mynd y tu hwnt i'ch addysgu uniongyrchol eich hun neu'ch cefnogaeth uniongyrchol eich hun ar gyfer dysgu. I esbonio hyn ymhellach, efallai y byddwch yn cynnwys tystiolaeth o'ch cyfraniad at ddatblygu neu weithredu polisiau neu strategaethau lleol ar lefel grŵp/tîm/adran/ysgol neu Gyfadran, neu i fentrau sy'n anelu at wella arfer ar draws tîm, cyd-destun neu broffesiwn. Wrth drafod gweithgareddau o'r fath, mae'n bwysig eich bod **chi'n nodi'ch rôl bersonol yn glir** mewn perthynas â'r enghreifftiau a roddir ac yn nodi effaith a dylanwad eich gwaith ar bobl eraill.

Mae rhai enghreifftiau byr wedi'u cynnwys isod i ysgogi eich meddwl am wahanol ffyrdd y gallech ddarparu tystiolaeth sy'n dangos cwmpas ac effaith eich arfer ar gyfer D3.3. Mae'r rhain yn ddangosol yn unig a dylech ddewis eich enghreifftiau eich hun i ddarparu tystiolaeth ar gyfer D3.3 yn eich cyd-destun chi.

Dulliau newydd o addysgu a/neu gefnogi dysgu

Gallai datblygu dulliau newydd o addysgu a/neu gefnogi dysgu sy'n deillio o'ch arfer uniongyrchol gyda myfyrwyr ac sy'n adeiladu arno (gan gyd-fynd â Disgrifydd 1 neu 2) fod yn sail i dystiolaeth sy'n briodol i gais am Uwch Gymrodoriaeth, os gallwch ddangos sut mae'r arfer hwn yn cael ei ddefnyddio gan eraill ar lefel leol neu lefel ehangach er budd eu dysgwyr.

Er enghraifft, efallai eich bod wedi arbrofi gyda dulliau arloesol o ddarparu adborth i ddysgwyr fel rhan o weithgaredd ymchwil gweithredol, wedi'i ledaenu mewn gweithdy neu ddigwyddiad mewnol/allanol, ac oherwydd adborth cadarnhaol gan gynrychiolwyr, wedi cael gwahoddiad i gyflwyno i bwyllgor prifysgol. Yn dilyn hyn, mae'r dull bellach wedi'i gynnwys o fewn canllawiau a/neu brosesau'r brifysgol fel enghraifft o arfer da ac rydych wedi datblygu adnoddau ar gyfer datblygu staff.

Gwaith prosiect ar wella cefnogaeth i fyfyrwyr

Gallai gwaith prosiect sy'n gysylltiedig â chymorth uwch i fyfyrwyr ddarparu sail ar gyfer tystiolaeth briodol ar gyfer Disgrifydd 3.3 o PSF 2023 os ydych chi'n gallu dangos eich cyfraniad unigol.

Efallai eich bod wedi cael eich gwahodd i ymuno â'r tîm prosiect hwn fel ymarferydd arbenigol â gwybodaeth arbenigol a phrofiad perthnasol yn y maes gwaith hwn. Mae gwaith prosiect yn debygol o olygu dull mwy cydweithredol (dolen i V5) felly bydd angen i chi esbonio eich cyfraniad i'r prosiect. Efallai y byddwch chi'n trafod sut y gwnaethoch hwyluso gweithdai cysylltiedig i ledaenu hyn i gydweithwyr a chefnogi gweithredu'r gwelliant yn eu gwaith gyda dysgwyr. Mae gwerthusiad wedi dangos effaith gadarnhaol y gwaith hwn.

Arholi/Adolygu Rhaglenni yn Allanol

Gallai profiad o gyfrifoldebau arholi neu adolygu allanol effeithiol ddarparu tystiolaeth briodol ar gyfer Disgrifydd 3.3. Bydd angen i chi ddangos sut mae eich gwaith fel 'cyfaill beirniadol' neu adolygydd allanol wedi eich galluogi i rannu gwybodaeth arbenigol a phrofiad proffesiynol perthnasol i nodi meysydd i'w gwella a chefnogi unigolion/timau rhaglenni i gyflwyno newidiadau cadarnhaol i wella'r dysgu gan fyfyrwyr a/neu sicrhau prosesau ansawdd cadarn.

Ni ddylech yn syml restru eich penodiadau, eich cyflawniadau neu'ch allbynnau, ond mae angen i chi roi enghreifftiau dethol o argymhellion a/neu gyngor rydych chi wedi'u rhoi, ar draws ystod o gyd-destunau, a dangos sut yr ymatebwyd i'ch ymyriadau.

6 Ysgrifennu eich cais

6.1 Cynllunio

Dylai cynllunio eich cais a gwneud penderfyniadau ynghylch pa enghreifftiau y byddwch chi'n eu defnyddio fod yn gam cyntaf eich proses ysgrifennu. Dylai hyn hefyd fod yn bleserus wrth i chi adfyfyrio ar y nifer o ffyrdd rydych chi wedi cefnogi eraill i wella eu harfer.

O fewn y geiriau cyfyngedig sydd ar gael ni fyddwch yn gallu ysgrifennu am bopeth rydych chi wedi ei wneud a **rhaidd i chi fod yn ddetholus am yr enghreifftiau rydych chi'n dewis ysgrifennu amdanynt**. Dewiswch enghreifftiau sy'n dangos orau eich gwaith yn unol â gofynion Disgrifydd 3.

Yn ogystal â phenderfynu pa enghreifftiau o'ch arfer i'w dewis i'w defnyddio yn eich cais, un o'r penderfyniadau allweddol y bydd yn rhaid i chi eu gwneud hefyd yw a ddylid defnyddio pob enghraifft yn y Naratif Adfyfyriol neu'r Astudiaethau Achos. Mae'r ddwy adran ganlynol (6.2 a 6.3) yn darparu canllawiau ar bob un o'r rhain.

Yn gyffredinol, mae eich cais yn cael ei lunio gan ddefnyddio enghreifftiau o'ch arfer a nodwyd o fewn y tair i bum mlynedd diwethaf. Mater i chi yw sut rydych chi'n dewis yr enghreifftiau ac mae'n dibynnu sut mae'n well gennych weithio, ond awgrymir dau ddull gwahanol isod; mae rhai pobl yn hoffi dechrau gyda thudalen wag ac eraill yn teimlo bod gweld awgrymiadau yn eu helpu i lunio eu syniadau eu hunain.

- + **Dull posibl 1:** meddylwch yn ôl dros y tair i bum mlynedd diwethaf a gnewch restr o enghreifftiau posibl o'ch arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu a allai fod yn dystiolaeth ddefnyddiol tuag at Ddisgrifydd 3. Gall y broses hon gymryd ychydig o amser a gall fod o gymorth siarad â chydweithiwr, neu weithio mewn grŵp bach lle gallwch rannu syniadau ac ysgogi'r meddwl. Weithiau mae siarad â phobl eraill yn eich atgoffa o effeithiolrwydd eich arfer.

Unwaith y bydd gennych restr, cyfeiriwch at yr enghreifftiau yn y ddogfen 'Guide to the PSF 2023 Dimensions - Senior Fellowship' i wirio bod yr enghreifftiau ar eich rhestr yn debyg, o ran cwrpas eu dylanwad, i'r rhai a awgrymir yno. Bydd y cwestiynau ysgogi yn y canllawiau yn eich helpu i fireinio'ch rhestr i ganolbwyntio ar eich enghreifftiau cryfaf ac i ddechrau cynllunio sut i ddefnyddio'r rhain yn eich cais.

- + **Dull posibl 2:** dechreuwch gyda'r ddogfen [Guide to the PSF 2023 Dimensions - Senior Fellowship](#) a defnyddiwch y cwestiynau ysgogi a'r enghreifftiau a awgrymir i'ch helpu i nodi eich enghreifftiau chi.

Pa bynnag ddull a ddewiswch, rydym yn argymhell eich bod yn gweithio gyda'r ddogfen Guide to the PSF 2023 Dimensions - Senior Fellowship ac yn defnyddio'r enghreifftiau a'r cwestiynau ysgogi a ddarperir i lywio'ch dewisiadau.

Unwaith y bydd gennych restr, dylech adolygu pob enghraifft yn erbyn tri maen prawf Disgrifydd 3 i benderfynu a ydych am ei ddefnyddio yn eich cais, ac os felly, ble i'w roi – yn y Naratif Adfyfyriol neu yn un o'r ddwy Astudiaeth Achos. Cofiwch, ar draws yr enghreifftiau y dewiswch ysgrifennu amdanynt, bydd angen i chi gynnwys dystiolaeth sy'n integreiddio holl Ddimensiynau PSF 2023 (D3.2).

Efallai yr hoffech ddefnyddio grid cynllunio, fel yr un a ddangosir isod yn Ffigur 5, i wirio bod gennych gydbwysedd o dystiolaeth ar draws eich cais a ddylai fynd i'r afael yn briodol â phob un o dri datganiad maen prawf Disgrifydd 3 (noder: gellir defnyddio grid at ddibenion cynllunio cychwynnol yn unig ac ni ddylid ei ddefnyddio yn eich cais terfynol).

Ffigur 5 – enghraifft o grid cynllunio

D3.1 cofnod parhaus o arwain neu ddylanwadu ar arfer y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel				D3.2 arfer sy'n effeithiol, yn gynhwysol ac sy'n integreiddio'r holl Ddimensiynau													D3.3 arfer sy'n ymestyn yn sylweddol y tu hwnt i addysgu uniongyrchol a/neu gymorth uniongyrchol ar gyfer dysgu		
A	B	C	D	E													F	G	
	Enghraifft o weith-garwch UG	Cyfnod amser O: mm/bb I: mm/bb	D3.1	D3.2													D3.3	Astud-iaeth Achos	Naratif Adfyfyriol
1				A 1	A 2	A 3	A 4	A 5	K 1	K 2	K 3	K 4	K 5	V 1	V 2	V 3	V 4	V 5	
2																			
3																			
4																			
5																			
6																			
7																			
8																			
9																			
10																			

Gallai defnyddio grid cynllunio fod yn ddefnyddiol i'ch helpu i fireinio'ch rhestr o enghreifftiau posibl (gan anelu at ryw 10-12 o enghreifftiau cryf i lunio eich cais yn erbyn D3.1 a D3.3), sicrhau bod gennych dystiolaeth o holl Ddimensiynau PSF 2023 ar draws yr ystod o enghreifftiau (D3.3) a'ch helpu i benderfynu pa enghreifftiau i'w defnyddio yn y Naratif Adfyfyriol a pha rai yn yr Astudiaethau Achos.

Bydd y rhan hon o'r broses ysgrifennu yn cymryd peth amser, ond ar ôl ei gwblhau, byddwch chi'n barod i ddechrau ysgrifennu. I bwysleisio, rhaid i'ch cais am Uwch Gymrodoriaeth ganolbwyntio ar arwain a dylanwadu ar arferion pobl eraill, gan gydnabod bod yna lawer o ffyrdd y gellid gwneud hyn a nifer o ffyrdd y gallai dysgwyr elwa o'ch gweithredoedd chi wrth i chi weithio gyda chymheiriaid.

6.2 Ysgrifennu eich Naratif Adfyfyriol

Bydd eich Naratif Adfyfyriol yn rhoi trosolwg o'ch arfer dros y 3 i 5 mlynedd diwethaf gan ddefnyddio enghreifftiau byr i ddangos effeithiolrwydd eich gweithredu. Mewn cyferbyniad, mae'r Astudiaethau Achos yn rhoi cyfle i chi archwilio a gwerthuso dwy enghraifft (un ar gyfer pob astudiaeth achos) mewn llawer mwy o ddyfnder.

Mae yna wahanol ffyrdd y gallech ddewis strwythuro ac ysgrifennu eich Naratif Adfyfyriol. Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio cyfanswm o tua 2,000 o eiriau (o'r uchafswm o 6,000 o eiriau) ar gyfer y rhan hon o'ch cais a bydd angen i chi benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r dyraniad hwn.

Un **ffordd bosibl** (ond mae yna rai eraill) yw nodi 'themâu' o'r enghreifftiau o arfer rydych chi wedi dewis eu defnyddio (Adran 6.1 uchod). Yna gellid cyflwyno'r themâu hyn gydag is-benawdau, gan greu strwythur i chi drefnu a chyflwyno eich enghreifftiau o'ch arfer effeithiol. I egluro hyn ymhellach, gallai rhai themâu a ddaw i'r amlwg efallai fod yn debyg i'r rhai isod, ond **cofiwch mai awgrymiadau dangosol yw'r rhain**:

- + arwain a dylanwadu ar arferion dysgu, addysgu ac asesu
- + rheoli newid

- + cydweithio â chydweithwyr y tu allan i'r brifysgol
- + mentora
- + integreiddio technoleg i arfer effeithiol
- + llunio arfer cynhwysol; a llawer o themâu posibl eraill.

Os defnyddiwch y dull thematig hwn, bydd eich 'themâu' yn unigryw **i'ch cyd-destun chi a natur eich arfer**; rhaid i'ch themâu ddeillio o'ch enghreifftiau personol eich hun o arfer.

Efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio dull gwahanol i strwythuro eich Naratif Adfyfyriol i weddu i'ch arddull ysgrifennu a'ch cyd-destun eich hun, ac ati; fodd bynnag, os byddwch chi'n defnyddio'r dull hwn, efallai y byddwch yn dewis 3 neu 4 thema wahanol ac yn defnyddio pob thema fel is-bennawd. O dan pob is-bennawd defnyddiwch enghreifftiau cryno sydd, gyda'i gilydd, yn nodi effeithiolrwydd eich gweithredoedd ar arferion pobl eraill a dysgu o ansawdd uchel wrth i chi weithio gyda, a thrwy, eich cymheiriaid.

Ar draws eich dwy Astudiaeth Achos a Naratif Adfyfyriol, mae angen i chi ddangos tystiolaeth o integreiddio holl Ddimensiynau PSF 2023.

Isod, mae detholiad o Naratif Adfyfyriol sy'n dangos sut mae un enghraifft o dan y thema 'Dylanwadu trwy waith pwyllgor' yn ymgorffori tystiolaeth o rai Dimensiynau.

Thema: Dylanwadu trwy waith pwyllgor

Rwyf wedi bod yn effeithiol o ran fy nylanwad ar y dysgu gan fyfyrwyr trwy fy aelodaeth weithredol, ymgysylltiedig o'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu am y pedair blynedd diwethaf. Yn sgil y pandemig roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor drafod a chytuno ar y trawsnewidiad llyfn i ddysgu ar-lein a'r defnydd priodol o dechnoleg. Yn gynnar iawn yn y pandemig, dangosodd nifer o ffynonellau data – ffurfiol ac anffurfiol – nad oedd llawer o staff yn barod i gefnogi dysgu ar-lein yn llawn.

Roeddwn i'n adnabyddus am fy arbenigedd yn y maes hwn gyda fy nysgu ffurfiol fy hun yn cefnogi hynny; roeddwn wedi cwblhau MSc mewn Dysgu Ar-lein (A5). O ganlyniad i hyn cefais fy newis yn brif ddylunydd cyfres fer o weithdai ar gyfer staff i adeiladu eu hyder a'u gallu i ddefnyddio MS Teams fel amgylchedd effeithiol ar gyfer addysgu a/neu sesiynau cymorth ar-lein (A1, K4).

Er ei fod yn fyr rybudd, llwyddais i gynnwys dau o'm menteion yn y prosiect – y ddau ohonynt eisiau datblygu eu sgiliau wrth arwain newid (V5). Gyda'n gilydd fe wnaethom archwilio llenyddiaeth allweddol gan geisio ei chymhwyso yn y gweithdai, a phenderfynu ar werth model Carpe Diem Salmon a Wright (2014) (V3, A2) fel dull effeithiol. Gyda chefnogaeth y ddau fentai, arweiniais y gwaith o ddylunio 5 gweithdy rhyngweithiol, ar-lein a oedd yn cydnabod y mannau cychwyn unigol ar gyfer pob aelod o staff, a'r angen i fod yn gynhwysol o ran ein dull, ac adeiladu'r gymuned academiaidd ar yr un pryd (V2). Ein nod oedd modelu'r ymyrraeth a gynlluniwyd gennym fel y gallai aelodau staff ddefnyddio agweddau ohoni, a oedd yn berthnasol i'w disgyblaeth a'u dysgwyr, yn eu harfer eu hunain (K1, K4).

A oedd yn llwyddiannus? Roedd y nifer a fynychodd yn dda gydag 87% o'r rheiny yn cymryd rhan ym mhob un o'r pum gweithdy. Roedd adborth gan y mynychwyr ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt hefyd yn gadarnhaol, gan nodi iddynt ddatblygu hyder. Yn ôl adborth dilynol i'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu roedd bodhad myfyrwyr â'u dysgu wedi cynyddu 2%, i 84%. Yn bwysig iawn, roedd deilliannau'r modylau yn eithaf tebyg o ran llwyddiant myfyrwyr i'r rhai cyn y pandemig (K3).

Ers hynny rwyf wedi arwain ar ailgynllunio'r 5 gweithdy gan alluogi eu cynnwys mewn rhaglen gynefino ar gyfer staff newydd (A1), o ganlyniad i'r ffaith fod aelodau'r Pwyllgor wedi nodi gwerth eu heffeithiolrwydd (K3).

Rhestr Gyfeiriadau

Salmon, G. a Wright, R. (2014) Transforming future teaching through 'Carpe Diem' learning design. Ar gael yn <https://www.gillysalmon.com/journal-articles.html> (dyddiad cyrchu).

6.3 Ysgrifennu eich Astudiaethau Achos

Y cam cyntaf wrth benderfynu ar ffocws pob un o'ch Astudiaethau Achos yw dewis y ddwy enghraifft fwyaf priodol o'ch gwaith (un ar gyfer pob astudiaeth achos) sy'n rhoi'r cyfle gorau i chi archwilio a gwerthuso eich dylanwad ar arferion pobl eraill ac ar ddysgu o ansawdd uchel o ganlyniad. Yn gyffredin, mae gwahanol elfennau astudiaethau achos yn

gymhleth ac fe'u cynhelir dros gyfnod o amser.

Rydym yn argymhell eich bod yn dewis dwy Astudiaeth Achos sy'n mynd i'r afael â dwy agwedd wahanol ar eich arfer gan y bydd hyn yn rhoi cyfle i chi adeiladu tystiolaeth yn effeithiol tuag at ddatganiad maen prawf y tri Disgrifydd ac i ymgorffori gwahanol Ddimensiynau'r PSF; h.y. osgoi dewis astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ddylunio rhaglenni, neu fentora, neu ddulliau addysgu neu asesu, ac ati...

Trwy gydol eich Astudiaethau Achos, dylech barhau i fyfyrion ar eich arfer (gweler Adran 4.4) yn hytrach na dim ond disgrifio'r camau a gymerwyd gennych. Amlinellir isod rai agweddau allweddol i chi eu hystyried wrth i chi ysgrifennu.

- + defnyddiwch deitl sy'n adlewyrchu ffocws yr Uwch Gymrawd ar arwain/ dylanwadu ar eraill
- + darparwch gyd-destun ar gyfer yr astudiaeth achos fel bod y darlennydd yn deall beth oedd y mater yr oedd angen gweithredu arno
- + esboniwch eich nod/amcan – beth roeddech chi'n ceisio ei gyflawni a pham
- + trafodwch beth wnaethoch chi a pham y gwnaethoch chi hynny y ffordd honno (dylech gynnwys sylfaen dystiolaeth)
- + amlinellwch yr amserlen a gyda phwy y gwnaethoch chi weithio (a pham y bobl hyn)
- + esboniwch pa ddull(iau) a ddefnyddiwyd gennych. Dylech gynnwys unrhyw broblemau/heriau a brofwyd gennych a sut y gwnaethoch eu rheoli
- + trafodwch y canlyniad – beth ddigwyddodd?
- + esboniwch yr effaith/effeithiau. Beth gafodd ei gyflawni? Sut ydych chi'n gwybod bod yr hyn a wnaethoch yn effeithiol?
- + nodwch beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf / sut rydych chi wedi addasu eich dull mewn gwaith dilynol.

Cofiwch fod y ddwy Astudiaeth Achos yn ffurfio mwyafrif eich cais os ydych yn dilyn yr argymhelliad i ddefnyddio tua 2,000 o eiriau ar bob Astudiaeth Achos; cyfeiriwch yn ôl at Adran 5 uchod i sicrhau eich bod yn mynd i'r afael â phob un o dri datganiad maen prawf D3.1, D3.2 a D3.3.

Mae'r ddwy enghraifft fer isod wedi'u cynnwys i ysgogi eich meddwl am ffyrdd posibl o fynd i'r afael â'ch Astudiaethau Achos; byddwch yn dewis enghreifftiau o'ch cyd-destun a fydd yn gwneud cais cryf yn erbyn Disgrifydd 3.

Enghraifft Astudiaeth Achos 1 – arwain ymyrraeth i hybu gwytnwch myfyrwyr

Mae Ali'n penderfynu canolbwyntio un Astudiaeth Achos ar y gwaith a arweiniodd yn ymwneud â hybu gwytnwch mewn myfyrwyr. Yn yr astudiaeth achos mae'n crynhoi'r cefndir, y rhesymeg, y datblygiad, y broses werthuso a'r broses ddilynol o ymgorffori uned newydd ar wytnwch yn y cwricwlwm.

Fel uwch aelod o dîm gwasanaethau myfyrwyr, roedd Ali'n arwain agweddau ar waith yn ymwneud â lles myfyrwyr; ar y pryd, roedd hyn yn un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Gyfadrannau Beirianeg yn ei sefydliad.

Roedd Ali'n ymwybodol bod ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi canfod bod gwytnwch cynyddol yn gysylltiedig â deilliannau cadarnhaol ar gyfer iechyd meddwl myfyrwyr, cyfraddau cadw a pherfformiad academiaidd myfyrwyr (Bleasdale & Humphreys, 2018). Gan dynnu ar y llenyddiaeth, mae Ali'n esbonio sut y cynhaliodd ei ymchwil ei hun gyda grwpiau ffocws bach o fyfyrwyr. Cefnogai'r canfyddiadau bwysigrwydd datblygu gwytnwch mewn myfyrwyr a'r angen am gefnogaeth strwythuredig ac adnoddau i wneud hyn (V3).

Mae Ali'n esbonio sut y daeth â gweithgor rhyngddisgyblaethol o staff ynghyd, gan gynnwys staff academiaidd a gwasanaethau cymorth, a'u harwain i ddatblygu, dilysu a chyflwyno uned 5 credyd a gynlluniwyd i hybu gwytnwch myfyrwyr trwy amrywiaeth o ddulliau seiliedig ar dystiolaeth (A4, V3, V5). Cafodd yr uned ei threialu gydag un grŵp blwyddyn gyntaf a gwerthuswyd y canlyniadau'n llawn cyn ei hymgorffori ar draws holl raglenni blwyddyn gyntaf y gyfadrannau (K3).

Trefnodd Ali gyfres o weithdai, a hwyluswyd gan aelodau'r gweithgor, i gefnogi aelodau tîm y rhaglen a staff y gwasanaeth cymorth i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu ac asesu'r uned wytnwch. Cydlynodd Ali hefyd y gwaith o ddatblygu adnoddau ar-lein i ddarparu cymorth ychwanegol i staff (A2, V3, K4).

Mae Ali'n darparu ystod o dystiolaeth sy'n dangos yr effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr yn sgil astudio'r uned hon ac mae'n tynnu sylw at ddiddordeb staff mewn cyfadrannau eraill.

Rhestr gyfeiriadau

Bleasdale a Humphreys. (2018). Undergraduate Resilience Research Project. Ar gael yn https://www.researchgate.net/profile/Lydia-Bleasdale-2/publication/324866343_Undergraduate_Resilience/links/5ae88e5b45851588dd8_144bd/Undergraduate-Resilience.pdf (dyddiad cyrchu).

Enghraifft Astudiaeth Achos 2 – arwain dylunio'r cwricwlwm

Mae Mai yn Arweinydd Rhaglen yng Nghyfadrannau y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Mae hi'n arwain tîm o staff (academaidd a chymorth) sy'n gweithio ar draws naw rhaglen o fewn y gyfadrannau.

Mae Mai yn dewis seilio un o'i hastudiaethau achos ar arwain y dilysu a'r achredu gan gorff proffesiynol mewn perthynas â'r portffolio o raglenni israddedig y mae hi'n eu harwain. Mae Mai yn trafod y rhesymeg dros ddyluniad y cwricwlwm, a oedd yn cynnwys ffocws allweddol ar gyflogadwyedd; blaenoriaeth strategol i'r brifysgol (V4). Roedd yn rhaid i ddyluniad y rhaglen fodloni safonau proffesiynol; h.y. y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad y mae'r corff proffesiynol yn eu disgwyl gan raddedigion (K5).

Mae Mai yn trafod sut y seiliodd ei syniadau cychwynnol ar gyfer dyluniad y cwricwlwm ar ei hymchwil addysgol ei hun a dulliau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth (V3). Ffurfiodd ac arweiniodd Grŵp Llywio bach i gefnogi'r broses ddatblygu ac ailgynllunio, ac yn ogystal, sefydlodd fforwm ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Gweithiodd mewn cydweithrediad ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys y rheoleiddiwr proffesiynol, myfyrwyr, ymarferwyr mewnol a defnyddwyr y gwasanaeth, staff a chyflogwyr (V5). Nododd y grŵp egwyddorion allweddol i'w hymgorffori o fewn dyluniad y rhaglen gan gynnwys cymorth bugeiliol da, partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr, addysgu tîm ac asesiadau amrywiol.

Roedd dyluniad y rhaglen a ddilyswyd yn llwyddiannus yn seiliedig ar 'linynnau' o foddlau yn sgaffaldio'r dysgu dros y tair blynedd (A1). Dilynodd Mai ddull arweinyddiaeth gyfranogol (Mishra a Pandey, 2019) i weithio gyda'i thîm rhaglen i feddwl yn greadigol am sut y gellid cyflwyno'r rhaglenni a'u hasesu mewn gwahanol ffyrdd (A2, A3). Yn ogystal ystyriwyd sut y gallent adeiladu ar y cryfderau a nodwyd i gydnabod amrywiaeth eu dysgwyr a datblygu sgiliau i greu ymdeimlad o 'berthyn' ar draws y rhaglenni (V1).

Darparwyd tystiolaeth o effeithiolrwydd dyluniad y cwricwlwm trwy ddata deilliannau a chyrhaeddiad myfyrwyr ar gyfer y set gyntaf o raddedigion, adborth o fforwm defnyddwyr y gwasanaeth a data cyflogaeth (K3).

Rhestr Gyfeiriadau

Mishra, M. a Pandey, A. (2019), "The impact of leadership styles on knowledge- sharing behaviour: a review of literature", Development and Learning in Organizations, Cyfrol 33, Rhif 1, tt. 16-19.(dyddiad cyrchu).

7 Datganiadau Cefnogi

Rhaid i'ch cais am Uwch Gymrodoriaeth gael ei gymeradwyo gan **ddau Ddatganiad Cefnogi gan ganolwyr**.

Mae'r **Datganiad Cefnogi'n ategu** eich cais ac yn cael ei ddefnyddio gan yr adolygwyr i gadarnhau bod eich cais yn cyflwyno adlewyrchiad teg a chywir o'ch arfer addysg uwch. Nid yw'r Datganiadau Cefnogi'n cael eu defnyddio gan adolygwyr i lenwi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a ddarparwch tuag at y Disgrifydd. Bydd angen i'r adolygwyr weld tystiolaeth ddigonol o arfer effeithiol yn eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos i fodloni Disgrifydd 3 er mwyn iddynt ddyfarnu Uwch Gymrodoriaeth.

Dylai eich canolwyr fod yn gweithio'n agos â chi, neu fod wedi gweithio'n agos â chi yn ddiweddar, a bod â gwybodaeth uniongyrchol o'ch arfer fel eu bod mewn sefyllfa i wneud sylwadau am eich cais a'i gymeradwyo. Sylwch y dylai'r Datganiadau Cefnogi adlewyrchu perthynas broffesiynol; h.y. ni ddylent fod gan aelodau o'r teulu nac yn seiliedig ar gyfeillgarwch personol.

Mae angen i ganolwyr fod â phrofiad cyfredol neu ddiweddar o weithio mewn addysg uwch a bod yn gyfarwydd â PSF 2023; er enghraifft fel deiliad un o'r pedwar categori o Gymrodoriaeth, er nad yw hyn yn hanfodol.

Mae angen i bob canolwr fod yn gyfarwydd â PSF 2023.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y Datganiadau Cefnogi a ddarperir gan eich canolwyr oherwydd gallent gyfeirio at agweddau ar eich arfer a allai gryfhau eich cais; os yw hyn yn wir, yna gallech adolygu rhannau o'ch cais a gofyn i'ch canolwyr wirio eu bod yn hapus i gymeradwyo'r newidiadau rydych chi wedi'u gwneud cyn i chi ei gyflwyno. Ar ôl i chi dderbyn eich Datganiadau Cefnogi, cadwch nhw fel eu bod yn barod i'w huwchlwytho.

Efallai y gofynnir i chi ddarparu Datganiad Cefnogi amgen neu ddau Ddatganiad Cefnogi newydd am amrywiaeth o resymau pan fydd adolygwyr eich cais yn barnu nad yw un neu'r ddau o'r datganiadau hyn yn cadarnhau ac yn cymeradwyo'r dystiolaeth yn eich cais yn llawn.

7.1 Canllawiau i ganolwyr

Rhowch gopi i'ch canolwyr o'r **Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Cefnogi – Uwch Gymrodoriaeth a'r templed Datganiad Cefnogi**; bydd y ddwy ddogfen hyn ar gael ar Moodle (modwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen). Rhaid ysgrifennu'r Datganiad Cefnogi ar dempled AU Ymlaen.

Yn eu Datganiad Cefnogi, bydd angen i'ch canolwyr gadarnhau eich bod wedi disgrifio'ch arfer yn gywir ac yn deg. Felly, mae angen i'ch canolwyr gael **drafft terfynol eich cais** i'w galluogi i ddarparu geirda effeithiol. Yn eu Datganiad Cefnogi bydd pob canolwr yn cadarnhau eich bod, yn eu barn broffesiynol nhw, yn dangos gofynion Disgrifydd 3 ac y dylech dderbyn Uwch Gymrodoriaeth.

Gofynnir i'ch canolwyr gadarnhau eu bod wedi ysgrifennu'r datganiad cefnogi eu hunain a bod

y wybodaeth a ddarperir ganddynt wedi'i hysgrifennu'n benodol ar gyfer eich cais. Gofynnir iddynt gadw eu Datganiad Cefnogi fel **ffeil pdf** a'i anfon atoch fel y gallwch ei uwchlwytho gyda'ch cais.

Mae'r Swyddfa Academaidd yn cadw'r hawl i gysylltu â'ch canolwyr am eglurhad, felly gwnewch yn siŵr bod pob Datganiad Cefnogi'n cynnwys manylion cyswllt y gellir eu gwirio (e.e. enw, teitl swydd, cyfeiriad e-bost, sefydliad). Fel rhan o broses sicrhau ansawdd barhaus y Swyddfa Academaidd, mae'r Swyddfa Academaidd yn gwirio geirdaon fel mater o drefn i sicrhau dilysrwydd unigolion drwy adolygiad testun yn Turnitin. Yn ogystal â defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad (Turnitin), cysylltir â rhai canolwyr i gadarnhau mai'r Datganiad Cefnogi a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yw'r un datganiad a baratowyd ac a gwblhawyd ganddyn nhw. Os amheuir uniondeb proffesiynol y Datganiad Cefnogi, ni fydd y datganiad yn cael ei dderbyn a gallai hynny olygu bod y cais yn aflwyddiannus.

8 Cyflwyno eich cais am Uwch Gymrodoriaeth

Ar ôl i chi gwblhau eich cais gan ddefnyddio'r templed cais am Uwch Gymrodoriaeth ac wedi i chi gael eich dau Ddatganiad Cefnogi, rydych chi'n barod i gyflwyno eich cais.

Cyflwynir eich cais yn gyntaf i'r Swyddfa Academaidd **trwy'r ddolen gyflwyno briodol ar Moodle (modwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen)**.

8.1 Proses cyflwyno cais:

Pan fydd gennych eich holl ddogfennau cais ac rydych chi'n barod i symud ymlaen, dilynwch y camau hyn i gyflwyno eich cais i'w adolygu:

[Cyflwynwch eich cais a'ch datganiad cefnogi ar y Ddolen Gyflwyno briodol ar Moodle \(modwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen\)](#)

9 Sut bydd eich cais yn cael ei adolygu?

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ddau asesydd annibynnol (a elwir yn 'banel Cydnabyddiaeth yr HEA') fel rhan o broses adolygu gan gymheiriaid. Mae sampl o geisiadau o bob rownd o gyflwyniadau yn cael eu cymedroli gan Asesydd Allanol.

Dewisir aseswyr am eu profiad o adolygu allanol a'u dealltwriaeth o PSF 2023, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u profiad o ddysgu ac addysgu mewn addysg uwch. Mae cronfa aseswyr y Swyddfa Academaidd yn cynnwys arbenigwyr addysg ac ymarferwyr o amrywiaeth o ddisgyblaethau ar draws y Brifysgol.

Mae ein haseswyr yn ymgymryd â chylch blynyddol o weithgareddau datblygu proffesiynol a safoni rheolaidd i sicrhau bod eu hadolygiad o'ch cais yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth gyfredol o ofynion PSF 2023 ac Uwch Gymrodoriaeth.

9.1 Sut mae'r adolygwyr yn ffurfio eu barn?

Bydd yr aseswyr yn chwilio am dystiolaeth bod eich arfer yn bodloni gofynion Disgrifydd 3 ar draws eich Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos, a byddant yn gwirio bod y Datganiadau Cefnogi'n darparu cymeradwyaeth briodol ar gyfer eich cais. Byddant yn asesu eich cais yn erbyn pob un o feini prawf Disgrifydd 3.

Sylwch fod y dyfarniad yn seiliedig ar a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwch yn y **Naratif Adfyfyriol ac Astudiaethau Achos** yn bodloni gofynion Disgrifydd 3.

Bydd pob asesydd yn darllen eich cais ac yn cymhwyso meini prawf Disgrifydd 3 i ddod i ddyfarniad annibynnol cychwynnol. Yna mae'r ddau asesydd yn ffurfio barn gytûn ar y cyd. Os na fydd y ddau asesydd cyntaf yn gallu dod i benderfyniad consensws, bydd y Cynghorydd Allanol yn cael ei ddefnyddio i gymedroli a chytuno ar ganlyniad.

Darperir [canllawiau](#) a gridiau adolygu ar gyfer ein haseswyr, sy'n esbonio sut y disgwylir iddynt lunio barn broffesiynol ar geisiadau am Gymrodoriaeth.

Cyn i unrhyw ddyfarniad gael ei gyfathrebu i'r ymgeisydd, mae'r Cynghorydd Allanol yn cymedroli sampl o geisiadau.

9.2 Faint o amser bydd y broses adolygu'n ei gymryd?

Gellir gwneud cais am Gymrodoriaeth ar gyfer un o'r dyddiadau cyflwyno penodol. Fe gewch eich hysbysu am ganlyniad eich cais o fewn 6-8 wythnos i'r dyddiad cyflwyno i'r panel.

9.3 Y broses adolygu a chanlyniadau posibl


Dyfarnu

Os mai barn gytûn y Panel yw bod eich cais yn bodloni gofynion Disgrifydd 3, yna dyfernir Cymrodoriaeth i chi. Byddwch yn derbyn e-bost i'ch llongyfarch gan y Swyddfa Academaidd a fydd yn esbonio sut i lawrlwytho eich tystysgrif Cymrodoriaeth o fewn eich cyfrif [MyAdvanceHE](#). Bydd gennych hefyd hawl i ddefnyddio'r llythrennau SFHEA ar ôl eich enw.

Cyfeirio

Os bernir nad yw eich cais yn darparu tystiolaeth ddigonol i fodloni Disgrifydd 3, yna fe gewch adborth gan yr adolygwyr mewn templed **Canlyniad ac Adborth y Panel**. Bydd yr adborth hwn yn dangos pa rai o'r meini prawf y mae eich cais wedi'u bodloni ac yn esbonio sut mae angen cryfhau eich cais i ddarparu tystiolaeth o'r meini prawf sy'n weddill o Ddisgrifydd 3.

Byddwch yn cael cynnig **un** cyfle i ailgyflwyno o fewn pedair wythnos. Yn yr achos hwn, byddwch yn cael templed ar gyfer eich ailgyflwyniad a gofynnir i chi amlygu/tracio unrhyw newidiadau rydych chi'n eu gwneud i'ch cais gwreiddiol. Ar ôl i chi gyflwyno eich cais diwygiedig, bydd yr un adolygwyr yn gwneud dyfarniad terfynol i naill ai ddyfarnu Cymrodoriaeth neu nodi bod angen cyflwyno cais newydd.



Sylwch y byddai angen i unrhyw apêl fod yn gysylltiedig â methiant i gadw at broses PCYDDS ac nid â chanlyniad yr adolygiad.

10 Beth os oes gennych gwestiynau eraill?

Os oes gennych ragor o gwestiynau neu os oes angen cymorth pellach arnoch, anfonwch e-bost i HEAapplications@uwtsd.ac.uk a bydd un o'n tîm yn gallu eich cynorthwyo.